**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

24 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch datblygu deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU). Nod ETS y DU yw cymell datgarboneiddio er mwyn cyrraedd ein targed lleihau nwyon tŷ gwydr o allyriadau sero-net erbyn 2050. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben, mae Awdurdod ETS y DU, sy'n cynnwys pedair Llywodraeth y DU, yn lansio'r ymgynghoriad "Datblygu ETS y DU" ar 25 Mawrth 2022, a fydd yn rhedeg am 12 wythnos.

Nod yr ymgynghoriad yw symud y cynllun tuag at gydymffurfio â sero-net tra'n sicrhau bod busnesau'n parhau i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol. Yn ogystal, ei nod yw atal gollyngiadau carbon a nodi meysydd i'w gwella drwy gydol gweithrediad y cynllun.

Mae'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ein hymrwymiad presennol i gysoni cap ETS y DU â llwybr sero net erbyn mis Ionawr 2024, gan ganiatáu i'r diwydiant roi rhybudd i baratoi ar gyfer newidiadau yn y farchnad. Mae'n cynnwys adolygiad o ddyraniadau am ddim i sicrhau ein bod yn diogelu busnesau sydd fwyaf agored i brisio carbon. Yn ogystal, bydd archwiliad o ehangu ETS y DU i sectorau priodol ychwanegol o fewn adolygiad cyntaf ETS y DU, gyda'r gweithredu heb fod yn gynharach na 2026.

Nid oes unrhyw oblygiadau deddfwriaethol uniongyrchol a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rwy'n ysgrifennu atoch i gadw tryloywder a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 25 Mawrth a disgwylir ymateb ar y cyd gan Lywodraeth Awdurdod EtS y DU yn ystod hydref 2022.

Yr wyf hefyd yn rhannu'r diweddariad hwn â Phwyllgor y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.